## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn Rhithiol ar 17 Tachwedd, 2020

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)
Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, John Arwel Roberts.

Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes y Cyngor), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**Trwy wahoddiad**: Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid)

**Wrth law:** Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151; Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro; Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc; Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro); Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo; Pennaeth Gwasanaethau Tai; Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (Dros Dro); Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd; Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio ac Economaidd); Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid; Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM); Rheolwr Sgriwtini (AGD); Swyddog Pwyllgor (ATH).

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Owain Jones, Nicola Roberts, Mrs Anest Frazer (Aelod Cyfetholedig)

**Hefyd yn bresennol**: Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

1:00 pm - 2:35 pm

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 1 **Datganiad o Ddiddordeb**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 2 **Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd, a chadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 (Galw i Mewn) a 20 Hydref 2020. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 **Dogfen Gyflawni Blynyddol (Cynllun** |

| | |
|---|---|
| | **Gwella) 2020/21**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | Ar ôl ystyried y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer cyfnod o ddeunaw mis o fis Hydref 2020 i fis Mawrth 2022 a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymell Dogfen Gyflawni Flynyddol 2020-2022 i'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 **Monitro Perfformiad: Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 2 2020/21**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r diweddariadau a ddarparwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i argymell y mesurau lliniaru fel y'u nodir i'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 5 **Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid**<br>Adroddiad llafar gan Gadeirydd y Panel |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd nodi'r diweddariad a roddwyd ac i ddiolch i Gadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid am y wybodaeth. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 6 **Blaen Raglen Waith**<br>Adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd –<br><br>• Cytuno ar fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2020/21.<br>• Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith. |